# YMGYNGHORYDD ANNIBYNNOL AR SAFONAU

## Rhagarweiniad

Mae'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus yn nodi egwyddorion y broses o wneud penodiadau cyhoeddus, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, dethol yn ôl haeddiant, a sicrhau proses agored a thryloyw. Yn unol ag egwyddorion bod yn agored a thryloyw, mae'n rhaid i wybodaeth ar bob penodiad fod ar gael ar gais swyddogion y Cynulliad, er bod gofyn cadw at hawliau ymgeiswyr unigol i gyfrinachedd manylion personol. Er nad yw'r penodiad hwn yn ddarostyngedig i God Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus, na dyletswyddau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, bydd y broses yn dilyn yr un egwyddorion o ran cystadleuaeth deg ac agored.

## Y Broses

Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor, a chyda chytundeb y Llywydd, bydd prif gamau'r broses fel a ganlyn:

*1. Diwedd Tachwedd* - sicrhau cytundeb y Cynulliad i symud ymlaen trwy benderfyniad y Cynulliad.

*2. Hysbysebu yn gynnar ym mis Rhagfyr a gofyn am enwebiadau.*

*3. Canol Ionawr* - Caniatáu tua 4 wythnos ar gyfer ceisiadau. Gofynnir i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais i gyd-fynd â CV, ac fe'u gwahoddir i ddatgan unrhyw weithgareddau gwleidyddol neu wrthdaro o ran buddiannau, er enghraifft cysylltiadau personol ag Aelodau o'r Cynulliad neu gyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad.

*4. Ail hanner Ionawr* - didoli'r ceisiadau. Bydd y panel yn cynnwys aseswr annibynnol, Cadeirydd Pwyllgor, Llywydd a Chlerc/Dirprwy Glerc. Asesir ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf a gyhoeddwyd ac fe'u detholir yn ôl haeddiant.

*5. Wythnos olaf Ionawr* - gwahodd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i gyfweliad. Hysbysu'r Pwyllgor, Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Parhaol yngln â'r ymgeiswyr.

*6. Dechrau hyd canol Chwefror* - panel cyfweld i gynnwys y Llywydd, Aseswr Annibynnol,

Cadeirydd Pwyllgor a'r Ysgrifennydd Parhaol â chymorth y Clerc/Dirprwy Glerc.

*7. Ail hanner Chwefror* - Trafod y telerau penodi etc â'r dewis ymgeisydd a'r ymgeisydd wrth gefn. Hysbysu'r Pwyllgor yngln â'r dewis ymgeisydd.

*8. Diwedd Chwefror* - Y Cynulliad i gytuno i benodi'r dewis ymgeisydd trwy benderfyniad y Cynulliad.

*9. Dechrau Mawrth* - y Cynulliad yn cyhoeddi'r penodiad, gydag adroddiad byr gan yr Aseswr Annibynnol mewn Datganiad i'r Wasg.

*10. 1 Ebrill neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny* - ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn ar y gwaith.

**Cyflog**

Mae'n anodd amcangyfrif faint o waith fydd disgwyl i'r sawl a benodir ei wneud gan nad oes cymhariaeth uniongyrchol â swydd debyg yn Nh'r Cyffredin. Bydd y gwaith yn llwyr ddibynnol ar nifer y cwynion. Fodd bynnag, yr ydym yn rhagweld na ddylai'r ymrwymiad amser ar gyfartaledd fod yn fwy na 1-1.5 diwrnod y mis dan amgylchiadau arferol. Byddwn, wrth gwrs, yn chwilio am berson proffesiynol o'r radd flaenaf (barnwr wedi ymddeol efallai) a chredwn y byddai'n well talu arian cadw i ddenu ymgeiswyr priodol. Credwn y dylid cael cyfnod penodi o 3 blynedd, ac y dylai'r sawl a benodir dderbyn tâl cadw o £3,000 *per annum* ynghyd â thâl o £300 *per diem*. Cyfanswm cost blynyddol i'r Cynulliad o tua £10,000.

**Swyddfa'r Llywydd**